OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 53

Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*25 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 53

The Regulated Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) and Adoption Support Services (Local Authorities) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made	*25 February 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 53

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") a Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") o dan bwerau a roddir gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ("Deddf 2002").

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2019, sy'n nodi eithriadau i'r diffiniad o wasanaeth mabwysiadu o dan baragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf 2016. Mae'r diwygiad yn rheoliad 3(2) yn darparu nad yw gwasanaeth cymorth mabwysiadu nad yw ond yn cael ei ddarparu o dan gontract ar gyfer gwasanaethau gyda gwasanaeth mabwysiadu cofrestredig neu wasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol - gan gynnwys pan fo'r darparwr yn gweithredu fel unigolyn, partneriaeth neu gorff corfforedig - yn wasanaeth mabwysiadu. Mae hefyd yn cyflwyno eithriad newydd, sef nad yw darparu cwnsela mewn perthynas â mabwysiadu i unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 oed yn cael ei drin fel gwasanaeth mabwysiadu at ddibenion Deddf 2016.

Mae rheoliadau 4 a 5, ynghyd â'r Atodlen, yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2005.

Mae rheoliad 4 yn mewnosod diffiniad o "rhiant geni" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2005 ac yn egluro cwmpas gwasanaethau cymorth mabwysiadu penodol a ragnodir yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau hynny. Mae'r diwygiadau a gyflwynir gan reoliad 4 hefyd yn estyn

cymhwystra ar gyfer rhai gwasanaethau i gyn-warcheidwaid plentyn mabwysiadol, lle y mae i “gwarcheidwad” yr ystyr a roddir i “guardian” yn Neddf 2002.

Mae rheoliad 4(5) yn sicrhau y caiff personau sy’n dod o fewn yr eithriad a gyflwynir gan reoliad 3(2)(a) o’r Rheoliadau hyn ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu ar ran awdurdod lleol, at ddibenion adran 3(4)(b) o Ddeddf 2002 (cynnal gwasanaeth mabwysiadu).

Mae rheoliad 5 yn cyflwyno’r Atodlen sy’n cynnwys mân ddiwygiadau ychwanegol a diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2005, gan gynnwys rhoi’r term “geni” yn lle’r term “naturiol” mewn gwahanol ddarpariaethau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a’r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 53

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*25 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2(3) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**) ("Deddf 2016"), ac adrannau 2(6)(b), 3(3)(a) a (4)(b), a 142(4) a (5)(a) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol, fel sy'n ofynnol gan adran 2(4) o Ddeddf 2016.

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 187(2)(b) o Ddeddf 2016(**3**) gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2026.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 2016 dccc 2.
(**2**) 2002 p. 38 ("Deddf 2002"). *Gweler* y diffiniadau o "appropriate Minister", "the Assembly" a "regulations" yn adran 144(1). Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2002 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) Mae gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn gymwys i'r offeryn hwn yn rhinwedd paragraff 3 o Atodlen 1A i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005(**4**);

ystyr "Rheoliadau 2019" ("*the 2019 Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**5**).

Diwygio Rheoliadau 2019

3.—(1) Mae Rheoliadau 2019 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (eithriadau)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer y rhif paragraff "(1)";

(ii) yn lle is-baragraff (e) rhodder—

"(e) darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan berson nad yw ond yn darparu'r gwasanaethau hynny o dan gontract ar gyfer gwasanaethau gydag—

(i) gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig, neu

(ii) gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol;

(f) darparu cwnsela mewn perthynas â mabwysiadu gan berson nad yw ond yn darparu'r gwasanaeth hwnnw i unigolion sydd wedi cyrraedd 18 oed.";

(b) hepgorer paragraff (2).

Diwygio Rheoliadau 2005

4.—(1) Mae Rheoliadau 2005 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"mae i "rhiant geni" ("*birth parent*") yr un ystyr â rhiant naturiol yng nghyd-destun Deddf 2002, ac mae cyfeiriadau eraill at berthnasoedd drwy enedigaeth i'w dehongli yn yr un ffordd;".

(3) Yn lle rheoliad 3 (gwasanaethau a ragnodir) rhodder—

"(1) At ddibenion adran 2(6)(b) o Ddeddf 2002, rhagnodir y gwasanaethau canlynol yn wasanaethau cymorth mabwysiadu (yn ychwanegol at gwnsela, cyngor a gwybodaeth)(**6**)—

(a) cymorth ariannol sy'n daladwy o dan reoliad 11;

(b) gwasanaethau i alluogi grwpiau o blant mabwysiadol, rhieni mabwysiadol, a rhieni geni neu gyn-warcheidwaid plentyn mabwysiadol, i drafod materion sy'n ymwneud â mabwysiadu;

(c) cymorth i blant mabwysiadol, rhieni mabwysiadol, rhieni geni neu gyn-warcheidwaid plentyn mabwysiadol, a phersonau perthynol, mewn

(**4**) O.S. 2005/1512 (Cy. 116), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/291 (Cy. 69); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) O.S. 2019/762 (Cy. 145), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) Mae adran 2(6) o Ddeddf 2002 yn diffinio "adoption support services" fel (a) cwnsela, cyngor a gwybodaeth, a (b) unrhyw wasanaethau eraill a ragnodir gan reoliadau, mewn perthynas â mabwysiadu.

perthynas â threfniadau ar gyfer cyswllt rhwng plentyn mabwysiadol a rhiant geni, cyn-warcheidwad neu berson perthynol i'r plentyn mabwysiadol;

(ch) gwasanaethau y gellir eu darparu ar gyfer teulu mabwysiadol o ran anghenion therapiwtig plentyn mabwysiadol;

(d) cymorth er mwyn sicrhau bod y berthynas rhwng y plentyn a'i riant mabwysiadol yn parhau, gan gynnwys—

(i) hyfforddiant i rieni mabwysiadol er mwyn diwallu unrhyw anghenion arbennig sydd gan y plentyn sy'n codi yn sgil ei fabwysiadu; a

(ii) yn ddarostyngedig i baragraff (2), gofal seibiant; ac

(dd) cymorth os bydd tarfu ar leoliad mabwysiadu wedi digwydd neu mewn perygl o ddigwydd gan gynnwys—

(i) cyfryngu; a

(ii) trefnu a chynnal cyfarfodydd i drafod tarfu ar leoliadau mabwysiadu.

(2) At ddibenion paragraff (1)(d)(ii), rhaid i lety a ddarperir drwy ofal seibiant fod yn llety a ddarperir gan neu ar ran awdurdod lleol o dan adran 81 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**7**) neu gan sefydliad gwirfoddol o dan adran 59 o Ddeddf Plant 1989(**8**).

(3) At ddibenion paragraff (1)(dd), ystyr "tarfu ar leoliad mabwysiadu" yw tarfu ar drefniadau mabwysiadu ar unrhyw adeg o'r adeg pan fydd plentyn yn cael ei gyflwyno i ddarpar fabwysiadwyr, drwy gydol cyfnod y lleoliad a'r tu hwnt i'r adeg pan wneir gorchymyn mabwysiadu, a chan gynnwys yr adegau hynny."

(4) Yn rheoliad 4 (personau y mae'n rhaid bod trefniadau yn eu lle ar eu cyfer)—

(a) yn lle paragraff (4)(c) rhodder—

"(c) rhiant geni neu gyn-warcheidwad plentyn sydd wedi ei leoli i'w fabwysiadu neu sydd wedi ei fabwysiadu ar ôl lleoliad o'r fath.";

(b) yn lle paragraff (5)(c) (ond nid yr "ac" ar ei ôl) rhodder—

"(c) rhiant geni neu gyn-warcheidwad plentyn sydd wedi ei leoli i'w fabwysiadu neu sydd wedi ei fabwysiadu ar ôl lleoliad o'r fath;".

(5) Yn rheoliad 5 (darparu gwasanaethau), ym mharagraff (1)(bb), yn lle "unigolyn" rhodder "person".

Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2005

5. Mae mân ddiwygiadau ychwanegol a diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2005 wedi eu cynnwys yn yr Atodlen.

Dawn Bowden
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
25 Chwefror 2026

(**7**) 2014 dccc 4.
(**8**) 1989 p. 41.

YR ATODLEN

Rheoliad 5

Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2005

Cyflwyniad

1. Mae Rheoliadau 2005 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

Diwygiadau i derminoleg

2. Yn y darpariaethau a ganlyn, ym mhob lle y mae'n ymddangos, yn lle "naturiol" rhodder "geni"—

(a) rheoliad 2(1), yn y diffiniadau o "plentyn mabwysiadol heb fod drwy asiantaeth" a "rhiant mabwysiadol";

(b) rheoliad 4(2)(a), (c) ac (ch);

(c) rheoliad 7(1)(b).

Diwygiadau canlyniadol

3. Yn rheoliad 4 (personau y mae'n rhaid bod trefniadau yn eu lle ar eu cyfer)—

(a) ym mharagraff (4), yn lle "3(b)" rhodder "3(1)(b)";

(b) ym mharagraff (5), yn lle "3(c)" rhodder "3(1)(c)".

(c) ym mharagraff (6), yn lle "3(ch)" rhodder "3(1)(ch)";

(d) ym mharagraff (7), yn lle "3(d)" rhodder "3(1)(d)";

(e) ym mharagraff (9), yn lle "(3)(b)" rhodder "3(1)(b)".

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 53

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

SOCIAL CARE, WALES

The Regulated Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) and Adoption Support Services (Local Authorities) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make amendments to the Regulated Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019 ("the 2019 Regulations") and the Adoption Support Services (Local Authorities) (Wales) Regulations 2005 ("the 2005 Regulations") under powers conferred by the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 ("the 2016 Act") and the Adoption and Children Act 2002 ("the 2002 Act").

Regulation 3 amends regulation 3 of the 2019 Regulations, which sets out exceptions to the definition of an adoption service under paragraph 4 of Schedule 1 to the 2016 Act. The amendment at regulation 3(2) provides that an adoption support service delivered solely under a contract for services with a registered adoption service or a local authority adoption service - including where the provider is operating as an individual, partnership or corporate body - is not an adoption service. It also introduces a new exception that the provision of counselling in relation to adoption to an individual who has attained the age of 18 is not treated as an adoption service for the purposes of the 2016 Act.

Regulations 4 and 5, together with the Schedule, make amendments to the 2005 Regulations.

Regulation 4 inserts a definition of "birth parent" into regulation 2 of the 2005 Regulations and clarifies the scope of certain adoption support services prescribed in regulation 3 of those Regulations. The amendments introduced by regulation 4 also extends eligibility

for some services to former guardians of an adoptive child, where “guardian” has the meaning given in the 2002 Act.

Regulation 4(5) ensures that persons who fall within the exception introduced by regulation 3(2)(a) of these Regulations may provide adoption support services on behalf of a local authority, for the purposes of section 3(4)(b) of the 2002 Act (maintenance of adoption service).

Regulation 5 introduces the Schedule containing additional minor amendments and consequential amendments to the 2005 Regulations, including replacing the term “natural” for “birth” in various provisions.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Department of Health, Social Care and Early Years, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 53

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

SOCIAL CARE, WALES

The Regulated Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) and Adoption Support Services (Local Authorities) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made	*25 February 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 2(3) and 187(1)(b) of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(**1**) (the "2016 Act") and sections 2(6)(b), 3(3)(a) and (4)(b), and 142(4) and (5)(a) of the Adoption and Children Act 2002(**2**), make the following Regulations.

The Welsh Ministers have consulted such persons as they think appropriate, as required by section 2(4) of the 2016 Act.

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 187(2)(b) of the 2016 Act(**3**) a draft of this Welsh Statutory Instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Regulated Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) and Adoption Support Services (Local Authorities) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026 and they come into force on 1 April 2026.

Interpretation

2. In these Regulations—

(**1**) 2016 anaw 2.
(**2**) 2002 c. 38 ("the 2002 Act"). *See* the definitions of "appropriate Minister", "the Assembly" and "regulations" in section 144(1). The powers conferred on the National Assembly for Wales to make regulations under the 2002 Act transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
(**3**) The Senedd approval procedure applies to this instrument by virtue of paragraph 3 of Schedule 1A to the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4).

"the 2005 Regulations" ("*Rheoliadau 2005*") means the Adoption Support Services (Local Authorities) (Wales) Regulations 2005(**4**);

"the 2019 Regulations" ("*Rheoliadau 2019*") means the Regulated Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019(**5**).

Amendments to the 2019 Regulations

3.—(1) The 2019 Regulations are amended as follows.

(2) In regulation 3 (exceptions)—

(a) in paragraph (1)—

(i) omit the paragraph number "(1)";

(ii) for sub-paragraph (e) substitute—

"(e) the provision of adoption support services by a person who provides those services solely under a contract for services with—

(i) a regulated adoption service, or

(ii) a local authority adoption service;

(f) the provision of counselling in relation to adoption by a person who provides that service solely to individuals who have attained the age of 18.";

(b) omit paragraph (2).

Amendments to the 2005 Regulations

4.—(1) The 2005 Regulations are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation), in paragraph (1), at the appropriate place in alphabetical order, insert—

""birth parent" ("*rhiant geni*") has the same meaning as natural parent in the context of the 2002 Act, and other references to relationships by birth are to be construed in the same way;".

(3) For regulation 3 (prescribed services) substitute—

"(1) For the purposes of section 2(6)(b) of the 2002 Act, the following services are prescribed as adoption support services (in addition to counselling, advice and information)(**6**)—

(a) financial support payable under regulation 11;

(b) services to enable groups of adoptive children, adoptive parents, and birth parents or former guardians of an adoptive child, to discuss matters relating to adoption;

(c) assistance to adoptive children, adoptive parents, birth parents or former guardians of an adoptive child, and related persons, in relation to arrangements for contact between an adoptive child and a birth parent, former guardian or a related person of the adoptive child;

(**4**) S.I. 2005/1512 (W. 116), amended by S.I. 2019/291 (W. 69); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.

(**5**) S.I. 2019/762 (W. 145), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(**6**) Section 2(6) of the 2002 Act defines "adoption support services" as (a) counselling, advice and information, and (b) any other services prescribed by regulations, in relation to adoption.

(d) services that may be provided to an adoptive family in relation to the therapeutic needs of an adoptive child;

(e) assistance for the purpose of ensuring the continuance of the relationship between the child and the child's adoptive parent, including—

(i) training for adoptive parents for the purpose of meeting any special needs of the child arising from their adoption; and

(ii) subject to paragraph (2), respite care; and

(f) assistance where disruption of an adoption placement has occurred or is in danger of occurring including—

(i) mediation; and

(ii) organising and holding meetings to discuss disruptions in adoption placements.

(2) For the purposes of paragraph (1)(e)(ii), respite care consisting of the provision of accommodation must be accommodation provided by or on behalf of a local authority under section 81 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**7**) or by a voluntary organisation under section 59 of the Children Act 1989(**8**).

(3) For the purposes of paragraph (1)(f), "disruption of an adoption placement" means disruption of adoption arrangements at any point from and including when a child is introduced to prospective adopters, through the period of placement and beyond the making of an adoption order."

(4) In regulation 4 (persons for whom arrangements must be in place)—

(a) for paragraph (4)(c) substitute—

"(c) a birth parent or former guardian of a child who has been placed for adoption or has been adopted following such placement.";

(b) for paragraph (5)(c) (but not the "and" after it) substitute—

"(c) a birth parent or former guardian of a child who has been placed for adoption or has been adopted following such placement;".

(5) In regulation 5 (provision of services), in paragraph (1)(bb), for "an individual" substitute "a person".

Minor and consequential amendments to the 2005 Regulations

5. Additional minor amendments and consequential amendments to the 2005 Regulations are contained in the Schedule.

Dawn Bowden
Minister for Children and Social Care, under the authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
25 February 2026

(**7**) 2014 anaw 4.
(**8**) 1989 c. 41.

SCHEDULE

Regulation 5

Minor and consequential amendments to the 2005 Regulations

Introduction

1. The 2005 Regulations are amended as follows.

Amendments to terminology

2. In the following provisions, in each place that it appears, for "natural" substitute "birth"—

(a) regulation 2(1), in the definitions of "adoptive parent" and "non-agency adoptive child";

(b) regulation 4(2)(a), (c) and (d);

(c) regulation 7(1)(b).

Consequential amendments

3. In regulation 4 (persons for whom arrangements must be in place)—

(a) in paragraph (4), for "3(b)" substitute "3(1)(b)";

(b) in paragraph (5), for "3(c)" substitute "3(1)(c)";

(c) in paragraph (6), for "3(d)" substitute "3(1)(d)";

(d) in paragraph (7), for "3(e)" substitute "3(1)(e)";

(e) in paragraph (9), for "(3)(b)" substitute "3(1)(b)".

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839824-3

9 780348 398243